**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **9/5/24**

**Teitl:** **Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2024-27**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Er Gwybodaeth**

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Ystyried cynnwys y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r ysgolion ar gyfer 2024-27, er ystyriaeth bellach y Cabinet

**Cefndir:**
Mae Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru'n unig, sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru ("LlC") ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cytundeb partneriaeth gyda chorff llywodraethol pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Pwrpas y Cytundeb Partneriaeth yw gwella a chynnal gwaith partneriaeth rhwng yr ALl ac ysgolion.

**Y Sefyllfa Gyfredol:**
Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cytundeb a rhaid iddo gael ei adolygu bob 3 blynedd.

Bydd y Cytundeb Partneriaeth arfaethedig rhwng yr ALl a'r ysgolion yn rhedeg o Fedi 2024 tan Awst 2027. Mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Gellir crynhoi'r prif newidiadau i'r ddogfen fel y ganlyn:

- Newidiadau i derminoleg e.e. y Dysgu Sylfaen/ Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Newidiadau i ddadansoddi cynnydd disgyblion yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru
- Cynllun Trawsnewid wedi ei addasu yng ngoleuni'r pwyslais ar 3-16 y Cwricwlwm i Gymru
- Gwybodaeth ychwanegol o ran Iechyd a Diogelwch a materion yswiriant
- Mae dyletswyddau Cyrff Llywodraethol wedi'u diweddaru i adlewyrchu Canllaw LlC i'r gyfraith
- Mae rheoliadau gwarchod data wedi'u diweddaru i gyfeirio at reoliadau'r DU yn hytrach na rheoliadau Ewropeaidd

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Ddim yn berthnasol

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**

Argymell y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI a'r Ysgolion 2024-27 er cymeradwyaeth Cabinet

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

Er mwyn cael cymeradwyaeth Corff Llywodraethol bob ysgol o 1 Medi 2024 ymlaen.

**Enw Cyswllt:** Elen James a Clive Williams

**Swyddogaeth:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes a Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion

**Dyddiad yr adroddiad:** 29/3/24

**Acronymau:**

Ddim yn berthnasol